# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Gorffennaf 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.30 - 14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)496 - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2024**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Drafft Cadarnhaol**

3.1 **SL(6)497 – Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2024**

(Tudalennau 2 – 5)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-22-24 – Papur 3 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 18 Mehefin 2024

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(13.40 - 13.45)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Drafft Negyddol**

4.1 **SL(6)494 – Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol**

(Tudalennau 6 – 8)

Cod Ymarfer

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 – Papur 4 – Adroddiad drafft

4.2 **SL(6)495 – Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer**

(Tudalennau 9 – 10)

Cod Ymarfer

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 – Papur 5 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.45 - 13.50)

**5.1 SL(6)493 – Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024**

(Tudalennau 11 - 16)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 – Papur 6 – Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 24 Mehefin 2024

LJC(6)-22-24 – Papur 6a – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 27 Mehefin 2024

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 - 13.55)

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 - 14.00)

**7.1 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)**

(Tudalennau 17 - 20)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 – Papur 7 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 21 Mehefin 2024

**7.2 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Bil Dioddefwyr a Charcharorion**

(Tudalennau 21 - 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 – Papur 8 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, 25 Mehefin 2024

LJC(6)-22-24 – Papur 9 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 25 Mehefin 2024

**7.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol: Cywiriadau i offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft**

(Tudalennau 27 - 32)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 - Papur 10 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 26 Mehefin 2024

LJC(6)-22-24 - Papur 11 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol, 4 Mehefin 2024

**7.4 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 33 - 36)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 - Papur 12 - Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 27 Mehefin 2024

LJC(6)-22-24 - Papur 13 - Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 5 Mehefin 2024

## Cyfarfod preifat

(14.00 - 14.35)

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 9 Gohebiaeth oddi wrth Adam Price AS mewn perthynas â Charchar EF y Parc: Ystyriaeth bellach

(14.00 - 14.05)

## 10 Themâu sy’n deillio o adroddiadau’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau’r DU

(14.05 - 14.20) (Tudalennau 37 - 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 - Papur 14 - Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil [Saesneg yn unig]

## 11 Y broses cydsyniad deddfwriaethol

(14.20 - 14.30) (Tudalennau 60 - 65)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 - Papur 15 - Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Busnes, 24 Mehefin 2024

LJC(6)-22-24 - Papur 16 - Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 5 Mehefin 2024

## 12 Gohebiaeth sy’n ymwneud â’r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

(14.30 - 14.35) (Tudalennau 66 - 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-24 - Papur 17 - Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a’r Gymraeg, 17 Mehefin 2024

LJC(6)-22-24 - Papur 18 - Llythyr drafft at yr Ysgrifennydd Cabinet [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 01 Gorffennaf 2024

## SL(6)496 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("**y Ddeddf**") yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil a gyllidir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 ("**Rheoliadau 1996**") yn nodi'r prawf modd ar gyfer penderfynu swm y grant y caniateir i awdurdodau tai lleol ei dalu o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1996 i adlewyrchu'r sefyllfa ddeddfwriaethol ddiwygiedig sy'n deillio o'r Ddeddf. Yn benodol, maent yn rhoi cyfeiriadau at yr adrannau perthnasol o'r Ddeddf yn lle cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sy'n cael ei diddymu gan y Ddeddf. Maent hefyd yn rhoi cyfeiriadau at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil neu Weinidogion Cymru yn lle cyfeiriadau at Weinidogion Cymru / Cynulliad Cenedlaethol Cymru / y Cyngor Cyllido Addysg Uwch, fel y bo'n briodol. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 1996 i gywiro cyfeiriadau nad ydynt yn gyfredol bellach at ddeddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996

**Fe'u gwnaed ar:** 12 Mehefin 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 14 Mehefin 2024

**Yn dod i rym ar:** 01 Awst 2024

# Eitem 3.1

# SL(6)497 – Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("**y Ddeddf TTT**"). Mae Atodlen 5 yn cynnwys rheolau sy'n dynodi pryd y mae trafodiadau eiddo penodol yn ddarostyngedig i gyfraddau preswyl uwch o'r Dreth Trafodiadau Tir ("**TTT**").

Bydd y Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnodau 3 blynedd sy'n gymwys ar gyfer yr eithriad "disodli prif breswylfa" rhag cyfraddau preswyl uwch o'r TTT, yn ddarostyngedig i amodau penodol:

1. ar ôl prynu annedd i gymryd lle prif breswylfa, bod y cam o werthu'r cyn brif breswylfa wedi'i ohirio oherwydd presenoldeb diffygion diogelwch tân, neu

2. bod gwerthu neu brynu prif breswylfa yn y dyfodol yn cael ei ohirio oherwydd bodolaeth cyfyngiadau brys.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 35 o Atodlen 5 i'r Ddeddf TTT yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phan fo gan brynwr brif fuddiant mewn annedd y tu allan i Gymru. Mae is-baragraff (4) yn nodi rhestr o ddarpariaethau yn yr Atodlen sy'n cynnwys cyfeiriadau at "anheddau", sydd i'w dehongli i fod yn cynnwys anheddau y tu allan i Gymru yn unol ag is-baragraff (1).

Mae rheoliad 6(4) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-baragraff (4) i gynnwys cyfeiriadau at ddarpariaethau a fewnosodir yn Atodlen 5 gan y Rheoliadau hyn. Mae'r mewnosodiadau yn

cynnwys cyfeiriadau at baragraffau 8(4C)(b) a 17(4C)(b). Fodd bynnag, nid yw'n gwbl glir pam y mae angen cynnwys y cyfeiriadau penodol hynny yn is-baragraff (4), o ystyried bod y darpariaethau cysylltiedig ond yn cyfeirio at fodolaeth dyletswyddau ar bersonau penodol i unioni diffygion diogelwch tân.

Gofynnir felly i'r Llywodraeth egluro'r rheswm dros ychwanegu'r cyfeiriadau uchod at baragraff 35(4).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru.

Yn unol ag adran 2(3) o'r Ddeddf TTT, Awdurdod Cyllid Cymru sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli TTT. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio eithriad "disodli prif breswylfa" rhag atebolrwydd ar gyfer cyfraddau preswyl uwch y dreth honno.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion yn y Rheoliadau hyn rhwng 19 Rhagfyr 2023 a 17 Mawrth 2024.

Gan gyfeirio at ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"….Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gefnogol, neu'n gefnogol iawn, i gynigion Llywodraeth Cymru.*
>
> *Yr hyn a esgorodd ar yr anghytuno mwyaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o ymdrin â thrafodiadau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau Covid-19. Bydd y rheolau newydd arfaethedig yn caniatáu estyniadau i gyfnodau ad-dalu ac eithrio pan fo trafodiadau yn cael eu hoedi gan gyfyngiadau brys yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd y rheolau newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trafodiadau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau brys yn y gorffennol, fel cyfyngiadau Covid-19….*

*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r dull a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori…yw'r ymateb mwyaf cymesur."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Mehefin 2024**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfraddau Preswyl Uwch y Dreth Trafodiadau Tir: cynigion i ddiwygio'r rheolau ad-deli ac eithrio** |
| **DYDDIAD** | **18 Mehefin 2024** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet** |

Heddiw, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i estyn y cyfnodau ad-dalu ac eithrio o dair blynedd ar gyfer cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (TTT) o dan amgylchiadau penodedig. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 19 Rhagfyr 2023 a daeth i ben ar 17 Mawrth 2024.

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i estyn y cyfnodau ad-dalu ac eithrio o dair blynedd ar gyfer TTT, pan fo gwerthiant prif gyn breswylfa yn cael ei atal gan gyfyngiadau brys, a/neu ei rwystro, ac felly ei oedi, gan faterion sy'n ymwneud â diffygion diogelwch tân.

Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried erbyn hyn. Mae'r adroddiad yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd yr offeryn statudol drafft, a fydd yn gwneud y newidiadau i'r rheolau, yn cael ei osod yn y Senedd ar 18 Mehefin 2024 ac yn cael ei drafod ym mis Gorffennaf 2024.

Mae’r adroddiad ar gael yma: [Cyfraddau Preswyl Uwch y Dreth Trafodiadau Tir: cynnig i newid y rheolau ynglyn ag ad-dalu ac eithrio | LLYW.CYMRU]

Eitem 4.1

# SL(6)494 – Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol

## Cefndir a diben

Mae adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, a diwygio o bryd i'w gilydd, un neu fwy o godau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdod lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd mewn cod, a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo.

Mae'r Cod hwn yn nodi'r gofynion a'r canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â hwy pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Mae'n cynnwys:

- dyletswyddau llesiant a hollgyffredinol;
- asesiadau o anghenion y boblogaeth;
- gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig;
- hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector
- ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu;
- gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy; a
- chofrestrau o bobl ag amhariad ar eu golwg, pobl ag amhariad ar eu clyw a phobl anabl eraill.

Gosodwyd y Cod hwn yn wreiddiol ar 19 Mawrth 2024, ond cafodd ei dynnu'n ôl ar 18 Ebrill 2024 ar ôl i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gael ei rannu a nododd nifer o wallau ac anghysondebau yn y ddogfen.

## Gweithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn:

1. Ym mharagraff 5 o’r Cod, nodir bod gofynion wedi’u mynegi yn y Cod fel “rhaid” neu “ni chaiff”/“ni chaniateir” mewn print trwm, a bod canllawiau wedi’u mynegi fel “dylai” neu “ni ddylai” mewn fformat arferol. Fodd bynnag, defnyddir y gair “angen” mewn sawl man yn y Cod ac mae’r cyd-destun yn awgrymu y gallai fod bwriad i osod gofyniad neu roi canllawiau. Os felly, efallai mai “rhaid” neu “ni chaiff”/“ni chaniateir” mewn print trwm neu “dylai” neu “ni ddylai” oedd yr ymadrodd cywir i'w ddefnyddio yn hytrach nag “angen”. Er enghraifft, ym mharagraff 44 mae’n nodi, “Bydd angen i’r cymorth fod yn briodol i’w hoedran a’u dealltwriaeth” ac ym mharagraff 351 mae’n nodi “Mae angen sicrhau bod protocolau ar waith fel y gall hyn ddigwydd ac y gellir adolygu’r broses yn rheolaidd”. A yw’r defnydd o “angen” yn y math hwn o gyd-destun yn y Cod yn fwriadol oherwydd ni fwriedir iddynt fod yn ofynion neu’n ganllawiau cyfreithiol?

2. Yn yr Eirfa ar dudalennau 3 a 4 o’r testun Saesneg, diffinnir y termau “area” a “region/regional” mewn perthynas ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol yn y Cod. Fodd bynnag, defnyddir y term “locality” hefyd yng nghyd-destun yr awdurdodau neu’r byrddau hynny er na roddwyd ystyr iddo yn y Cod. Er enghraifft, ym mharagraff 299 mae'n nodi “Local authorities must promote and publicise the service throughout the locality”. Nid yw’n glir a ddylid bod wedi defnyddio’r term “area” neu “region” yn y mannau hynny, neu a oes gwahaniaeth ystyr rhwng “locality” ac “area” neu “region”. Rydym yn fod y testun Cymraeg wedi defnyddio'r term diffinedig "ardal" ("area") yn y lleoedd sy'n cyfateb i "locality" yn y testun Saesneg.

3. Ym mharagraff 83, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a’r testun Cymraeg. Yn ail frawddeg y paragraff hwnnw, yn y testun Saesneg, mae’n cyfeirio’n anghywir at “Chapter 2Bb of this Code”. Ond yn y testun Cymraeg mae’n cyfeirio’n gywir at “Pennod 2B o’r Cod hwn” ac felly mae rhif y Bennod yn wahanol yn y cyfeiriadau.

4. Ym mharagraff 230, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a’r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, yn y frawddeg olaf, mae’n nodi “the different types of organisations and approaches that fall under section 16 of the Act”. Ond yn y testun Cymraeg, mae’r geiriau “and approaches” ar goll o ystyr y frawddeg.

5. Ym mharagraff 251, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a’r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae’n nodi “to reach out, and engage as many and as diverse a range of people as possible”. Ond, yn y testun Cymraeg, mae’r ymadrodd “a chynnwys y bobl hyn” wedi’i ddefnyddio sy’n awgrymu cynnwys pobl eraill yn hytrach nag ymgysylltu â hwy. Mewn mannau eraill yn y Cod, mae “ymgysylltu” wedi cael ei ddefnyddio’n rheolaidd i gyfleu ystyr “engage” fel ym mharagraff 253.

6. Ym mharagraff 276, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a’r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae’n nodi “(see Chapter 2 of this Code)”. Ond yn y testun Cymraeg mae rhif y Bennod ar goll fel ei fod ond yn nodi “(gweler Pennod o'r Cod hwn)” y gellid ei ddehongli i olygu “(see a Chapter of this Code)” yn Saesneg.

7. Ym mharagraff 283, defnyddir yr ymadrodd “gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy” yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae’r term diffiniedig “y gwasanaeth” wedi’i ddefnyddio ar gyfer yr ymadrodd hwnnw o baragraff 275 ymlaen, gan gynnwys yn y paragraffau yn union cyn ac ar ôl paragraff 283. Felly, mae'n anghyson â sut y drafftiwyd y darpariaethau eraill lle mae'r term diffiniedig wedi'i ddefnyddio wrth gyfeirio at yr un gwasanaeth.
Ymateb y Llywodraeth

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**25 Mehefin 2024**

# SL(6)495 – Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer

## Cefndir a diben

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer ("y Cod") yn nodi egwyddorion a safonau ar gyfer comisiynu gofal a chymorth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, y cyfeirir atynt yn y Cod fel "partneriaid statudol".

Gosodwyd y Cod gerbron y Senedd yn wreiddiol ar 19 Mawrth 2024 cyn cael ei dynnu'n ôl ar 18 Ebrill 2024 i fynd i'r afael â gwallau a nodwyd yn y drafft.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Cod hwn.

1. Gall y materion canlynol o ran cyfeiriadau gael effaith ar hygyrchedd y Cod:
    a. Ym mharagraff 1.19, mae cyfeiriad at "Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru)". Mae'r cyfeiriad hwn yn anghyflawn gan na roddir blwyddyn.
    b. Ym mharagraff 1.65, nid oes troednodyn na hyperlinc ar gyfer y cyfeiriad at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
    c. Ym mharagraff 1.94, nid oes troednodyn na hyperlinc ar gyfer y cyfeiriad at yr adnodd hunanasesu a hyfforddiant rhagarweiniol.
    d. Yn yr Eirfa, mae paragraff olaf y cofnod ar gyfer "Gofalwr" yn cyfeirio at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel "Deddf 2014" yn

hytrach na defnyddio'r term diffiniedig "y Ddeddf" (a ddefnyddir yn gywir mewn paragraffau cynharach yn y cofnod hwn).

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Mehefin 2024**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

24 Mehefin 2024

Annwyl Rebecca

Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

Yn ein cyfarfod heddiw, ddydd Llun 24 Mehefin 2024, gwnaethom ni drafod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Caffael (Cymru) 2024, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godwyd yn ein hadroddiad drafft. Mae ein hadroddiad terfynol bellach wedi'i osod gerbron y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch ar fyrder cyn y ddadl a drefnwyd ar y Rheoliadau drafft i ofyn am eglurhad gennych ynghylch yr ymateb a gawsom.

Pan drafodom ni'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Caffael, ysgrifennodd cyn Gadeirydd y Pwyllgor atoch chi, ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, yn rhinwedd eich swydd flaenorol fel y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Yn eich ymateb ar 1 Medi 2022, fe ddywedoch chi:

> *"Mae fy swyddogion wrthi'n datblygu cynllun prosiect a fydd yn llywio'r dull o ddatblygu a gweithredu'r ddeddfwriaeth eilaidd yng Nghymru. Bydd swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos gyda llywodraeth y DU ar ddatblygu'r ddeddfwriaeth eilaidd er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniad wrth weithredu darpariaethau'r Bil, lle bo hynny'n briodol. Bydd dull pragmatig yn cael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod y Bil yn ateb gofynion Awdurdodau Contractio Cymru yn ogystal â rhai'r cyflenwyr."*

Dylid cydnabod a chroesawu bod Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am wneud ei rheoliadau ei hun i Gymru o dan *Ddeddf Caffael 2023*. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'n peri rhywfaint o bryder ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi ymostwng i gyngor a chyfarwyddyd gan

Lywodraeth y DU, a'i bod yn gweithredu'n unol â'r rhain, wrth arfer pwerau yn *Neddf Caffael 2023*, er bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod problemau gyda'r cyngor hwnnw.

Mae ein pwyntiau adrodd technegol 10 ac 11 yn nodi:

> *"10. Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau, mae'r "awdurdod perthynol" olaf i Weinidogion Cymru yn y tabl yn cyfeirio at "Cyrff GIG Cymru". Mae hyn yn cael ei ragflaenu gan gofnod sy'n cyfeirio at "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol Cymru". Nid yw "Cyrff GIG Cymru" wedi cael ei ddiffinio ac ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynghylch sut maent yn wahanol i'r cofnod blaenorol. Byddai eglurhad pellach yn cael ei groesawu o ran beth yw Corff GIG Cymru at ddibenion Atodlen 2.*
>
> *11. Yn y rhestr o awdurdodau llywodraeth ganolog a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau, cyfeirir at Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Diwygiodd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel bod y Comisiwn hwn bellach yn cael ei alw'n Gomisiwn y Senedd. Yn yr un modd, cyfeirir at Gyngor Gofal Cymru. O dan adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gelwir y Cyngor hwn bellach yn Gofal Cymdeithasol Cymru."*

Mewn ymateb, dywedwyd wrthym:

> *"10. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwynt adrodd.* ***Gwyddom nad yw rhai o'r cyfeiriadau at sefydliadau yn gyfredol a gwnaeth Llywodraeth y DU ein cynghori na ellid newid enwau.*** *Fodd bynnag, gan fod cyrff olynol wedi eu cwmpasu, gwnaethom ddilyn trywydd tebyg i reoliadau blaenorol.* ***Mae Llywodraeth y DU wedi newid y cyngor hwn, ac felly os bydd yn penderfynu diwygio ei rhestr i adlewyrchu newidiadau o ran trefniadaeth llywodraeth, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r anghysondebau hyn mewn rheoliadau yn y dyfodol.*** *Byddai hyn wedyn hefyd yn rhoi cyfle i ystyried newidiadau a fydd yn ofynnol ar ôl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gael ei ddisodli gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn yr haf.* ***(Ychwanegwyd y pwyslais.)***
>
> *11. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwynt adrodd. Gweler yr ymateb i bwynt adrodd 10. Noder hefyd effaith rheoliad 44(2)."*

Mae'n ymddangos fel pe bai Llywodraeth y DU yn rhoi cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru ar yr hyn y gallant neu na allant wneud darpariaeth yn ei gylch mewn offeryn statudol a wnaed yng Nghymru, ac nid yw'n glir inni a yw hynny'n briodol. Byddem yn croesawu cadarnhad o'n dealltwriaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i aros i weld a fydd Llywodraeth y DU yn penderfynu cywiro materion hysbys yn Rheoliadau Caffael 2024 cyn i chi wedyn gymryd camau i wneud y newidiadau i'r

rheoliadau yr ydych chi'n eu gwneud. Gofynnwn hefyd ichi rannu'r cyngor a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU ar y materion hyn gyda ni, yn enwedig mewn perthynas ag enw Comisiwn y Senedd.

Yn ogystal, nid ydym yn credu bod y materion y gwnaethom ni eu codi ym mhwynt adrodd 10 wedi cael sylw boddhaol, a byddem yn croesawu'r esboniad pellach y gofynnwyd amdano yn ein hadroddiad ynghylch y gwahaniaeth rhwng "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol Cymru" a "Cyrff GIG Cymru".

Byddem hefyd yn croesawu rhagor o eglurder o ran ein pwyntiau adrodd technegol 4 a 5, sy'n datgan:

> *"4. Mae rheoliad 12(17) yn defnyddio'r ymadrodd "dylanwad sylweddol", ond nid yw'r ymadrodd hwn wedi'i ddiffinio at ddiben y Rheoliadau. Gofynnir am eglurhad ynghylch pam nad yw ystyr yr ymadrodd hwn wedi'i nodi yn y Rheoliadau.*
>
> *5. Mae rheoliad 13(8) yn defnyddio'r ymadrodd "arfer ar y cyd", ond nid yw'r ymadrodd hwn wedi'i ddiffinio at ddiben y Rheoliadau. Gofynnir am eglurhad ynghylch pam nad yw ystyr yr ymadrodd hwn wedi'i nodi yn y Rheoliadau.*

Mewn ymateb, dywedwyd wrthym:

> *"Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwyntiau adrodd; fodd bynnag, gwnaed penderfyniad bwriadol o ran drafftio a pholisi yng nghyswllt y rhain. Gall ceisio diffinio'r termau hyn leihau eu cwmpas yn anfwriadol. Hefyd, byddai amrywiad yn hyn o beth o gymharu â'r ddarpariaeth gyfatebol yn Rheoliadau Caffael 2024, a allai greu problemau o ran sicrwydd cyfreithiol rhwng Cymru a Lloegr."*

Unwaith eto, byddem yn croesawu rhagor o fanylion ac eglurder ynghylch y rhan a chwaraeodd Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r fersiwn a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU yn ei Rheoliadau Caffael 2024 ac a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dull gweithredu hwnnw, o ystyried y sylwadau yn yr ymateb i'n pwyntiau adrodd mai "penderfyniad[au] bwriadol o ran drafftio a pholisi" oedd y rhain. A allwch chi hefyd esbonio ymhellach beth rydych chi'n ei olygu wrth "leihau eu cwmpas yn anfwriadol" ac egluro sut yr eir ati i bennu'r hyn sy'n "sylweddol" o ystyried y gallai unrhyw asesiad fod yn oddrychol.

Byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig manwl llawn i'r materion a godwyd uchod cyn gynted â phosibl. Os na allwch roi eglurder ysgrifenedig erbyn canol dydd ddydd Gwener 28 Mehefin, gobeithiwn y byddwch yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod eich cyfraniad i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau. Rydym yn cael ar ddeall y caiff y ddadl hon ei chynnal ddydd Mawrth 2 Gorffennaf. Wedi i'ch ymateb ysgrifenedig manwl ddod i law, awn ati i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor sydd ar gael.

Yn olaf, rydym yn nodi, er mwyn mynd i’r afael â phedwar mater problematig yr ydym wedi’u nodi fel rhan o’n gwaith craffu (gweler pwyntiau adrodd 2, 6, 7, a 9), eich bod yn bwriadu defnyddio offeryn statudol pellach i’w wneud yn yr hydref i gywiro’r gwallau rydym wedi eu nodi. Er eich bod wedi egluro bwriad Llywodraeth Cymru i ddatrys y materion hyn, mae’n ymddangos y bydd gofyn i’r Senedd serch hynny gymeradwyo deddfwriaeth y gwyddys ei bod yn ddiffygiol, sy’n fater difrifol fel y gwyddoch. Hyderwn y byddwch hefyd yn gwneud hyn yn glir i Aelodau o’r Senedd yn ystod y ddadl. Yn unol â’r arfer y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i’w fabwysiadu i wella tryloywder a hygyrchedd y broses o wneud is-ddeddfwriaeth, rydym yn croesawu’r ffaith y bydd y Memorandwm Esboniadol i’r offeryn statudol hwn yn y dyfodol yn cyfeirio at y Rheoliadau hyn a’n hystyriaeth ohonynt.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.cymru

27 Mehefin 2024

Annwyl Mike

**Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mehefin mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Caffael (Cymru) 2024.

Fel y nodwch, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn gweithredu cyfundrefn gaffael i Gymru. Fodd bynnag, ni allwn wneud hyn ar wahân i Loegr oherwydd y gweithgarwch caffael trawsffiniol sylweddol sy'n digwydd rhwng y ddwy wlad, a'r angen am gysondeb i sicrhau cyfundrefn gaffael sy'n addas i'r diben. Mae angen sicrwydd cyfreithiol ac ymarferol ar awdurdodau contractio, cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill yr effeithir arnynt. Rydym wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng yr angen am y sicrwydd hwnnw a'r angen i ddatblygu cyfundrefn gaffael newydd i Gymru, a fydd yn gweithredu ochr yn ochr â chyfundrefnau cyfatebol yn Lloegr ac yng ngweddill y DU.

Nid yw'n wir bod Llywodraeth Cymru wedi ildio i Lywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn. Yn wir, mae ein cydweithrediad agos parhaus ar ddatblygu ein cyfundrefnau caffael priodol wedi sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi chwarae rôl ystyrlon a dylanwadol yn natblygiad y Ddeddf Caffael, a bod Llywodraeth y DU wedi ymwneud yn weithredol â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei Rheoliadau Caffael 2024 ei hunan. Mae hyn wedi caniatáu Llywodraeth Cymru i sicrhau'r cysondeb mwyaf rhwng y cyfundrefnau caffael newydd, er lles defnyddwyr a chyflenwyr. Ffordd well o ddisgrifio'r berthynas fyddai partneriaeth adeiladol, a nodweddir gan ffocws ar y cyfleoedd hirdymor ehangach i brynwyr a chyflenwyr.

O ran pwyntiau adrodd technegol 10 ac 11, nid yw'n wir bod Llywodraeth y DU yn "rhoi cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru ar yr hyn y gallant neu na allant wneud darpariaeth ar ei gyfer mewn offeryn statudol a wnaed yng Nghymru". Mae'r rhestr o gyrff llywodraeth ganolog yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r rhestr bresennol o gyrff llywodraeth ganolog yn Atodlen 1 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'u diwygiwyd). Roedd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hwn yn benderfyniad bwriadol i sicrhau bod cyrff sy'n cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd.

Yn hanesyddol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu diwygio'r enwau cyrff llywodraeth ganolog oherwydd absenoldeb pwerau perthnasol mewn deddfwriaeth fasnach i wneud y diwygiadau hyn. Rydym wrthi'n archwilio dichonoldeb defnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Caffael i ddiweddaru'r rhestr a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau gan ystyried, ar yr un pryd, unrhyw risgiau posibl o ran cydymffurfio â rhwymedigaethau masnach ryngwladol. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU yn hyn o beth mewn perthynas â chydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gytundebau rhyngwladol. Os bernir bod diwygiadau yn gyfreithiol bosibl, gwneir y rhain drwy Offeryn Statudol Cymreig pellach cyn gynted â phosibl.

Mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Byrddau Iechyd Lleol Cymru" a "Chyrff GIG Cymru", er nad yw'r Ddeddf Caffael yn diffinio Cyrff GIG Cymru, defnyddir y term mewn mannau eraill. At hynny, mae'r rhestr o gyrff llywodraeth ganolog yn Atodlen 1 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'u diwygiwyd) yn cyfeirio at "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Byrddau Iechyd Lleol Cymru" a "Chyrff GIG Cymru", ac fel y nodwyd uchod, gwnaethom benderfyniad bwriadol i adlewyrchu'r rhestr bresennol yn Rheoliadau Caffael (Cymru) i sicrhau bod cyrff sy'n cael eu cwmpasu gan y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd, ac i sicrhau nad oes unrhyw amwysedd wrth inni symud at y gyfundrefn newydd.

O ran pwyntiau adrodd technegol 4 a 5, roedd y penderfyniadau ym mhob achos i beidio â diffinio'r termau 'dylanwad sylweddol' yn rheoliad 12(7) ac 'arfer ar y cyd' yn rheoliad 13(8) yn seiliedig ar weithrediad arfaethedig Rheoliadau Caffael (Cymru). Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth briodol o'r drafft cyfatebol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU yn eu Rheoliadau Caffael 2024.

Mae sicrhau cysondeb o ran gweithredu deddfwriaeth rhwng Cymru a Lloegr, lle mai dyna'r bwriad, yn ystyriaeth ddilys. Er y byddai'n agored i Lywodraeth Cymru ddiffinio pob term dan sylw, gwnaed y penderfyniad y dylai pob term ddwyn ei ystyr arferol yn y cyd-destun y dylid ei ystyried ynddo sydd, ym marn Llywodraeth Cymru, i fod yn eglur. Ym mhob achos, gwnaed y penderfyniad polisi i fod yn gyson â Llywodraeth y DU yn hytrach na gwyro er mwyn gwyro. Os oedd angen dilys a dybryd i bob term ddwyn rhyw ystyr arall heblaw am eu hystyr cyffredin, yna gellid eu diffinio. Nid dyna oedd y penderfyniad a wnaed.

Os bydd yr angen yn codi, yna gellir rhoi cyd-destun pellach i randdeiliaid drwy arweiniad a chyngor, mae penderfyniadau ynghylch diffinio telerau, neu beidio â gwneud hynny, yn gwestiynau dilys am bolisi a drafftio cyfreithiol ac nid ydynt o reidrwydd yn effeithio ar 'ffurf nac ystyr'.

Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion a roddwyd yn ddefnyddiol.  Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru

21 Mehefin 2024

Annwyl Mike

Diolch i'r pwyllgor am ddarparu'r adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Fel y cadarnheais yn fy natganiad ysgrifenedig ar 6 Mehefin (Datganiad Ysgrifenedig: Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a'r Bil Rhentwyr (Diwygio) (6 Mehefin 2024) | LLYW.CYMRU), methodd y Bil Rhentwyr (Diwygio) pan ddiddymwyd Senedd y DU ar 30 Mai. Felly, daeth hyn ag unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd i ben.

Rwyf wedi darparu ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad yn yr atodiad.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad – Ymateb i'r argymhellion**

**Argymhelliad 1. Wrth osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol gynnwys amserlen o'r trafodaethau a'r gwaith ymgysylltu rhynglywodraethol perthnasol sydd wedi digwydd ar lefel swyddogol a gweinidogol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn cydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 29 ac yn galluogi craffu effeithiol gan bwyllgorau'r Senedd. Er y bydd memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn aml yn cynnwys crynodebau o waith rhynglywodraethol, bydd amseriad memoranda a phwysigrwydd parchu egwyddorion cysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys unrhyw gyfrinachedd angenrheidiol, yn effeithio ar ddarparu gwybodaeth o'r fath.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro ei sylwadau am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac, yn sgil hynny, egluro a ellid defnyddio darpariaethau yn y Ddeddf honno, ac os felly sut, i gymryd camau mewn achosion o wahaniaethu yn y sector rhentu cartrefi (yn benodol pan wahaniaethir yn erbyn deiliaid contractau ar y sail bod ganddynt blant neu eu bod yn hawlio budd-daliadau) pe na bai'r Bil wedi cael ei ddefnyddio i ddiwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) 2019.**

Mae achosion llys diweddar wedi datgan bod polisïau fel "dim DSS" yn wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon ar sail rhyw ac anabledd, yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn berthnasol yng nghyd-destun gosod tai preswyl. Ni wnaeth yr achosion hyn herio gwahaniaethu ar sail oed ond gall gwahaniaethu ar sail oed fod yn berthnasol os oes cyfyngiad ar oed aelod o aelwyd. Nid yw a yw polisïau 'dim plant' yn ymddygiad wedi'i wahardd o dan Ddeddf 2010 wedi'i herio eto yn y llysoedd a byddai ei lwyddiant yn dibynnu ar a fyddai landlord yn gallu ei gyfiawnhau fel ffordd gymesur o wireddu amcan dilys.

Pwrpas y darpariaethau yw creu troseddau os bydd landlord neu ei asiant yn gwahaniaethu yn ei gontractau preswylio yn erbyn pobl sydd â phlant yn byw neu'n ymweld â nhw neu yn erbyn pobl sy'n hawlio budd-daliadau, ac yn gwneud darpariaeth arall am wahaniaethu o'r math hwnnw.

Mae diwygiadau i Ddeddf 2019 yn creu troseddau (tebyg i'r rhai yn Neddf 2019 ynghylch gwahardd ffioedd) ac yn creu telerau sylfaenol newydd yn Neddf 2016 a'r diwygiadau hynny yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni amcanion y polisi, yn gyson â deddfwriaeth dai arall yng Nghymru.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam na ellid cynnwys darpariaethau cyfatebol neu debyg i'r rhai a geir yn y Bil yn y Biliau rhentu cartrefi y bu'r Senedd yn craffu arnynt ac a gafodd eu pasio ar ôl hynny fel Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 a Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.**

Roedd Deddf 2016 yn gwella'r sefyllfa ar gyfer deiliaid contractau, gan ei bod yn darparu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch beth ddylai telerau atodol ar gyfer contractau meddiannaeth fod (gyda thelerau atodol contractau safonol yn gallu cael eu hamrywio dim ond drwy gytundeb rhwng y landlord a deiliad y contract). Roedd Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 a wnaed wedi hynny yn cynnwys teler yn caniatáu i ddeiliad y contract benderfynu pwy sy'n byw yn yr annedd.

Fodd bynnag, o ystyried y pwysau cynyddol ar dai yn gyffredinol, yn enwedig yn dilyn pandemig Covid-19. barnwyd ei bod yn rhesymol diogelu ymhellach y lefel o ddiogelu y cynigiwyd yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) drwy wneud y ddarpariaeth ynghylch plant a hawlwyr budd-daliadau yn deler sylfaenol na ellid ei amrywio trwy greu troseddau os oes gwahaniaethu ar sail plant neu statws o ran budd-daliadau.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi'r adran berthnasol o lawlyfr deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'i helpodd i ddod i'w phenderfyniad na ellid defnyddio proses graffu ddeddfwriaethol garlam yn y Senedd ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar bolisi rhentu cartrefi.**

Ystyriwyd Pennod 16 o'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd wrth wneud y penderfyniad.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam y mae'n ymddangos**
**y rhoddwyd blaenoriaeth i'r opsiwn o ddefnyddio Bil y DU yn hytrach na dilyn proses graffu ddeddfwriaethol garlam ar gyfer Bil a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.**

Nid oeddem o'r farn bod y cynigion hyn yn addas ar gyfer Bil Senedd cyflym.

**Argymhelliad 6. Wrth osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol esbonio'n fanwl yn y memorandwm hwnnw pam y dewiswyd peidio â dilyn proses graffu ddeddfwriaethol garlam ar gyfer Bil a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na defnyddio Bil Llywodraeth y DU i wneud darpariaeth mewn maes datganoledig.**

Rhaid i Femoranda gydsynio deddfwriaethol egluro a yw'n briodol i ddarpariaeth gael ei gwneud, ac iddi gael ei gwneud ym Mil y DU. Er mewn rhai sefyllfaoedd a allai gynnwys cyfeirio at opsiynau deddfwriaethol eraill gan y Senedd, byddai hynny'n dibynnu ar yr amseru, y cynnwys, a safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar gydsyniad.

**Argymhelliad 7. Ar gyfer y darpariaethau a nodir yn y Memorandwm, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet osod gerbron y Senedd yr un fath o asesiad effaith rheoleiddiol a fyddai wedi cael ei ddarparu pe bai'r darpariaethau wedi'u cynnwys mewn Bil ar wahân a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.**

Roedd angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ategol ar gyfer y diwygiadau gafodd eu gwneud yn y Cyfnod Adrodd. Ond gwnaeth y Bil fethu cyn cyrraedd ei gamau olaf yn Senedd y DU yn ystod yr 'olchfa' cyn cyhoeddi'r etholiad cyffredinol a dileu'r Senedd wedi hynny.

**Argymhelliad 8. Os bwriedir defnyddio Bil y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig, rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Rheol Sefydlog 29, ac yn unol â'r Rheol Sefydlog honno rhaid iddi osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno.**

Gallaf gadarnhau ein hymrwymiad i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yn lleihau ei dibyniaeth ar Filiau'r DU yn y dyfodol ac yn sicrhau y cynhelir uniondeb y Senedd fel deddfwrfa.**

Nid wyf yn cytuno â'r rhagdybiaeth fod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Filiau'r DU. Bu achosion, gan gynnwys y Bil hwn, lle rydym wedi argymell bod y Senedd yn cydsynio i ddarpariaeth ar y sail ei fod yn synhwyrol ac yn fanteisiol i Gymru. Fodd bynnag, bu nifer o achosion hefyd lle rydym wedi gwrthwynebu Biliau y DU sy'n gwneud darpariaeth i Gymru ynghylch mater datganoledig, ac y mae'r Senedd wedi gwrthod rhoi cydsyniad ar ei chyfer. Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau ledled y DU i sicrhau bod Confensiwn Sewel yn cael ei atgyfnerthu.

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd y defnyddir ei hadnoddau, gyda'r bwriad o sicrhau bod ganddi'r capasiti i ddeddfu'n llawn drwy gyflwyno Biliau i'r Senedd a lleihau ei dibyniaeth ar Filiau'r DU, er mwyn cynnal uniondeb y setliad datganoli. Dylai adrodd ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw cyn diwedd y Chweched Senedd. Dylai adrodd ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw cyn diwedd y Chweched Senedd.**

Am y rhesymau a nodir yn argymhelliad 9, nid wyf yn cytuno â'r rhagdybiaeth fod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Filiau'r DU.

**Lesley Griffiths AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

25 Mehefin 2024

Annwyl Mike,

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion, yn dilyn cyhoeddi Etholiad Cyffredinol y DU ac mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyhoeddais ar 15 Ebrill 2024.

Ddydd Gwener 24 Mai 2024, cytunodd y ddau Dŷ ar destun y Bil a chafodd Gydsyniad Brenhinol ac mae bellach yn Ddeddf Seneddol.

Cydnabu Llywodraeth y DU yn ystod Trydydd Darlleniad y Bil fod y Senedd wedi gwrthod ei chydsyniad i Gymal 18 (Cymal 15 ar adeg cyflwyno'r Bil) a Rhan 2 o'r Ddeddf. Yn y ddadl gydsynio ar 17 Mai, fe wnaeth y Senedd hefyd wrthod cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 4, 11, 26 a 27 o'r Bil yn ymwneud â'r Cod Dioddefwyr. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth y DU yn anghytuno â'r asesiad cymhwysedd ar gyfer y cymalau hyn ac felly ni wnaeth gyfeirio atynt yn ystod y Trydydd Darlleniad. Rwy'n hynod siomedig gyda phenderfyniad Llywodraeth y DU i symud y Ddeddf yn ei blaen heb gydsyniad y Senedd.

Yn ystod y Trydydd Darlleniad, gwnaeth Llywodraeth y DU un gwelliant sy'n parchu proses gydsynio'r Senedd. Ni fydd Cymal 18 (Cymal 15 ar adeg cyflwyno'r Bil), sy'n darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ynghylch rolau cymorth dioddefwyr (megis cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynghorwyr trais rhywiol annibynnol) a bod yn rhaid i unrhyw gyrff sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud â dioddefwyr neu'r system cyfiawnder troseddol roi sylw iddynt, yn berthnasol yng Nghymru. Rwy'n croesawu'r gwelliant hwn, a wnaed ar gyngor fy swyddogion. Rwyf am fod yn glir y byddwn yn parhau i ymgysylltu a chefnogi cydweithio ar draws Llywodraethau yn y maes hwn, ond nid ar draul ein fframweithiau presennol ac ymgysylltiad ystyrlon â'r sector arbenigol yng Nghymru.

Ychwanegwyd cymal ychwanegol (Cymal 22) at y Ddeddf sy'n caniatáu i ddatganiad effaith dioddefwr yn y tribiwnlysoedd iechyd meddwl gael ei ystyried mewn perthynas ag amodau rhyddhau. Nid ydym yn ystyried bod hyn o fewn cymhwysedd y Senedd gan ei fod yn fater cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â rheoli troseddwyr. Bydd angen gorchymyn cychwyn i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddod â'r cymal i rym. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod sefyllfa Cymru yn cael ei chynrychioli'n briodol cyn cychwyn y darpariaethau.

Yn ogystal, bydd angen i Lywodraeth newydd y DU ystyried gweithredu'r Cod Dioddefwyr diwygiedig. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod y setliad datganoli yn cael ei barchu'n briodol a bod gwasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru yn cael eu cydnabod am eu gwahaniaethau.

Tan ddiwedd mis Mawrth 2024, ac yn dilyn ymgysylltu helaeth ac adeiladol ar lefel swyddogol, roeddem wedi cael ar ddeall ei bod yn debygol y byddai Llywodraeth y DU, o ystyried cymhwysedd y Senedd yn y maes hwn, yn cynnig darpariaeth gydsynio i Weinidogion Cymru ynghylch datgan digwyddiad mawr a phenodi Eiriolwr ar gyfer dioddefwyr digwyddiadau mawr sy'n codi yng Nghymru. Gwyrdrowyd y sefyllfa hon yn sydyn gyda Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ddarparu darpariaethau ymgynghori yn unig yr oeddem wedi bod yn glir nad oeddent yn parchu cymhwysedd y Senedd ac y byddent yn annerbyniol. Ni chafwyd unrhyw resymeg gredadwy ganddynt am hyn ac roeddem yn synnu ac yn siomedig nad oedd yr hyn yr oeddem wedi gweithio i'w gyflawni yn bosibl.

Yn ystod y ddadl gydsynio, rhoddodd y Senedd ei chydsyniad i gymal 16, 17 a Rhan 3 o'r Ddeddf sy'n ymwneud ag iawndal gwaed heintiedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â gweithredu'r rhannau hyn o'r Ddeddf.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am eu gwaith craffu gwerthfawr yn ystod y broses hon.

Rwy'n nodi eich argymhelliad a'ch casgliadau ac wedi ymateb iddynt isod.

**Casgliad 1. Rydym yn ystyried bod y gwelliannau i'r Bil fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.**

Rwy'n croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y cymalau hyn. Mae'r rhesymeg dros ein safbwynt ar ba welliannau sy'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i nodi yn y Memorandwm a osodwyd ar 19 Mai 2023 a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a osodwyd ar 15 Ebrill 2024 a 30 Ebrill 2024.

**Casgliad 2. Byddai'r Senedd wedi cael mwy o amser ar gyfer craffu pe bai Llywodraeth Cymru wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn gynharach ac mewn perthynas â'r gwelliannau a gyflwynwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nŷ'r Cyffredin, ac yn dilyn hynny gyda memorandwm pellach yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd y Cyfnod Pwyllgor yn Nŷ'r Arglwyddi. Yn lle hynny, mae cyfle i'r Senedd graffu ar ddarpariaethau newydd yn y Bil, yn ogystal â gwelliannau i gymalau hysbys yn flaenorol, wedi cael ei rwystro'n ddifrifol.**

**Casgliad 3. Nid yw'r oedi cyn gosod y memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol mewn perthynas â'r Bil yn dderbyniol ac mae wedi tanseilio'n ddifrifol allu'r Senedd a'i Haelodau i graffu'n effeithiol ar y Bil a'i effaith yng Nghymru.**

**Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet, heb fod yn hwyrach nag yn ystod y ddadl gydsynio berthnasol ar gyfer y Bil, ddarparu manylion llawn i egluro'r oedi cyn gosod y memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol gerbron y Senedd ar gyfer y Bil, ac egluro pam y mae'n ystyried bod yr oedi wrth osod y memoranda atodol deddfwriaethol yn dderbyniol.**

Ym mis Rhagfyr 2023, ysgrifennodd Llywodraeth y DU atom gyda chynigion adeiladol ar rai cymalau, yr oeddem yn disgwyl eu gweld wedi'u hadlewyrchu mewn gwelliannau a drefnwyd ar gyfer Ionawr 2024. Ein bwriad oedd gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cadarnhau'r hyn yr oeddem wedi gobeithio a fyddai'n sefyllfa gadarnhaol a therfynol ar y Bil. Fodd bynnag, cafodd y gwelliannau eu diddymu ac yn lle hynny bu'n rhaid i ni aros tan fis Ebrill 2024 am gadarnhad o'u dull gweithredu. Rydym wedi gorfod ailystyried ein sefyllfa a wnaeth ohirio'r gwaith o gynhyrchu ein Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Felly, nid oedd yn bosibl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ Arglwyddi.  Rydym yn cydnabod yr effaith y mae sefyllfa ansicr Llywodraeth y DU wedi'i chael ar allu'r Senedd i graffu ar y Bil. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am well arferion yn y DU yn y maes hwn i gefnogi confensiwn Sewell a rôl gyfansoddiadol y Senedd.

Yn ystod y ddadl gydsynio ar 7 Mai 2024, nodais yn fy sylwadau agoriadol y rhesymau dros yr oedi wrth osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n galed i osod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn gyflym ar draws proses y Bil. Yn anffodus, roedd hyn yn anodd oherwydd taith cythryblus y Bil a'r ansicrwydd ynghylch safbwynt Llywodraeth y DU. Rwy'n derbyn bod hyn wedi golygu nad yw'r Senedd wedi cael digon o amser i graffu ar Fil sydd â goblygiadau pellgyrhaeddol i Gymru. Fodd bynnag, fe wnaethom symud mor gyflym ag y gallem ym mhob cam o'r broses ar gyfer y Bil, yn wyneb materion y tu hwnt i'n rheolaeth.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Culture and Social Justice

**Lesley Griffiths AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

25 Mehefin 2024

Annwyl Jenny

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion yn dilyn cyhoeddi Etholiad Cyffredinol y DU ac mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyhoeddais ar 15 Ebrill 2024.

Ddydd Gwener 24 Mai 2024, cytunodd y ddau Dŷ ar destun y Bil a chafodd Gydsyniad Brenhinol ac mae bellach yn Ddeddf Seneddol.

Cydnabu Llywodraeth y DU yn ystod Trydydd Darlleniad y Bil fod y Senedd wedi gwrthod ei chydsyniad i Gymal 18 (Cymal 15 ar adeg cyflwyno'r Bil) a Rhan 2 o'r Ddeddf. Yn y ddadl gydsynio ar 17 Mai, fe wnaeth y Senedd hefyd wrthod cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 4, 11, 26 a 27 o'r Bil yn ymwneud â'r Cod Dioddefwyr. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth y DU yn anghytuno â'r asesiad cymhwysedd ar gyfer y cymalau hyn ac felly ni wnaeth gyfeirio atynt yn ystod y Trydydd Darlleniad. Rwy'n hynod siomedig gyda phenderfyniad Llywodraeth y DU i symud y Ddeddf yn ei blaen heb gydsyniad y Senedd.

Yn ystod y Trydydd Darlleniad, fe wnaeth Llywodraeth y DU un gwelliant sy'n parchu proses gydsynio'r Senedd. Ni fydd Cymal 18 (Cymal 15 ar adeg cyflwyno'r Bil), sy'n darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ynghylch rolau cymorth dioddefwyr (megis cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynghorwyr trais rhywiol annibynnol) a bod yn rhaid unrhyw gyrff sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud â dioddefwyr neu'r system cyfiawnder troseddol roi sylw iddynt, yn berthnasol yng Nghymru. Rwy'n croesawu'r gwelliant hwn, a wnaed ar gyngor fy swyddogion. Rwyf am fod yn glir y byddwn yn parhau i ymgysylltu a chefnogi cydweithio ar draws Llywodraethau yn y maes hwn, ond nid ar draul ein fframweithiau presennol ac ymgysylltiad ystyrlon â'r sector arbenigol yng Nghymru.

Ychwanegwyd cymal ychwanegol (Cymal 22) at y Ddeddf sy'n caniatáu i ddatganiad effaith dioddefwr yn y tribiwnlysoedd iechyd meddwl gael ei ystyried mewn perthynas ag amodau rhyddhau. Nid ydym yn ystyried bod hyn o fewn cymhwysedd y Senedd gan ei fod yn fater

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â rheoli troseddwyr. Bydd angen gorchymyn cychwyn i ddod â'r cymal i rym. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod sefyllfa Cymru yn cael ei chynrychioli'n briodol cyn cychwyn y darpariaethau.

Yn ogystal, bydd angen i Lywodraeth newydd y DU ystyried gweithredu'r Cod Dioddefwyr diwygiedig. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod y setliad datganoli yn cael ei barchu'n briodol a bod gwasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru yn cael eu cydnabod am eu gwahaniaethau.

Tan ddiwedd mis Mawrth 2024, ac yn dilyn ymgysylltu helaeth ac adeiladol ar lefel swyddogol, roeddem wedi cael ar ddeall ei bod yn debygol y byddai Llywodraeth y DU, o ystyried cymhwysedd y Senedd yn y maes hwn, yn cynnig darpariaeth gydsynio i Weinidogion Cymru ynghylch datgan digwyddiad mawr a phenodi Eiriolwr ar gyfer dioddefwyr digwyddiadau mawr sy'n codi yng Nghymru. Gwyrdrowyd y sefyllfa hon yn sydyn gyda Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ddarparu darpariaethau ymgynghori yn unig yr oeddem wedi bod yn glir nad oeddent yn parchu cymhwysedd y Senedd ac a fyddai'n annerbyniol. Ni chafwyd unrhyw resymeg gredadwy am hyn ac roeddem yn synnu ac yn siomedig nad oedd yr hyn yr oeddem wedi gweithio i'w gyflawni yn bosibl.

Yn ystod y ddadl gydsynio, rhoddodd y Senedd ei chydsyniad i gymal 16, 17 a Rhan 3 o'r Ddeddf sy'n ymwneud ag iawndal gwaed heintiedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â gweithredu'r rhannau hyn o'r Ddeddf.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am eu gwaith craffu gwerthfawr yn ystod y broses hon.

Rwy'n nodi eich argymhellion a'ch casgliadau ac wedi ymateb iddynt isod.

**Casgliad 1. Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl gymalau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Atodol (Rhif 2).**

**Casgliad 2. Mae'n siomedig iawn nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig unrhyw reswm nac esboniad am yr oedi cyn cyflwyno'r Memorandwm Atodol hwn. O ganlyniad, cawsom lai na phythefnos i ymgymryd â'r gwaith craffu.**

Rwy'n croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y cymalau hyn. Mae'r rhesymeg dros ein safbwynt ar ba welliannau sy'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i nodi yn y Memorandwm a osodwyd ar 19 Mai 2023 a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a osodwyd ar 15 Ebrill 2024 a 30 Ebrill 2024.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip blaenorol at y Llywydd ar 22 Rhagfyr 2023 i egluro na fu'n bosibl gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol. Yn ystod y ddadl gydsynio ar 7 Mai 2024, nodais yn fy sylwadau agoriadol y rhesymau dros yr oedi wrth osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n galed i osod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn gyflym ar draws proses y Bil, ond mae hyn wedi bod yn anodd yn anffodus oherwydd taith cythryblus y Bil a'r ansicrwydd ynghylch safbwynt Llywodraeth y DU. Rwy'n derbyn bod hyn wedi golygu nad yw'r Senedd wedi cael digon o amser i graffu ar Fil sydd â goblygiadau pellgyrhaeddol i Gymru. Rydym yn cydnabod yr effaith y mae sefyllfa ansicr Llywodraeth y DU wedi'i chael ar allu'r Senedd i graffu ar y Bil, ac mae hyn yn tanlinellu'r angen am well arferion yn y DU yn y maes hwn i gefnogi confensiwn Sewell a rôl gyfansoddiadol y Senedd. Rydym wedi symud mor gyflym ag y gallem ym mhob cam o'r broses ar gyfer y Bil, yn wyneb materion y tu hwnt i'n rheolaeth.

**Argymhelliad 1. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae cyn lleied o gynnydd wedi'i wneud o ganlyniad i'r trafodaethau â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a dylid nodi dyddiad a hyd y cyfarfodydd rhwng y ddwy ochr ar lefel gweinidogol a swyddogion ers mis Gorffennaf 2023.**

Ym mis Rhagfyr 2023, ysgrifennodd Llywodraeth y DU atom gyda chynigion adeiladol ar rai cymalau, yr oeddem yn disgwyl eu gweld wedi'u hadlewyrchu mewn gwelliannau a drefnwyd ar gyfer Ionawr 2024. Ein bwriad oedd gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cadarnhau'r hyn yr oeddem wedi gobeithio a fyddai'n sefyllfa gadarnhaol a therfynol ar y Bil. Fodd bynnag, cafodd y gwelliannau eu diddymu ac yn lle hynny bu'n rhaid i ni aros tan fis Ebrill 2024 am gadarnhad o'u dull gweithredu. Rydym wedi gorfod ailystyried ein sefyllfa a wnaeth ohirio'r gwaith o gynhyrchu ein Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Felly, nid oedd yn bosibl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Mae'r ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar lefel swyddogol wedi bod yn adeiladol, gyda chyfarfodydd rheolaidd yn ystod taith y Bil. Cafwyd cymysgedd o gysylltiadau a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys cyfathrebu ad hoc. Er gwaethaf hyn, dim ond ar 8 Ebrill 2024 y cawsom wybod am safbwynt Llywodraeth y DU ar gynigion allweddol.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylid rhoi cydsyniad i gymal 20 newydd (Adolygiadau Dynladdiad Domestig); cymal 37 newydd (Adolygiad Camau Gwaharddedig) a chymal 40 newydd (Iawndal i Ddioddefwyr Gwaed Heintiedig). Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet egluro y bydd taliadau'n ymwneud â chymal 40 newydd yn dod o gronfeydd y llywodraeth ganolog.**

Rwy'n hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor. Gallaf gadarnhau y bydd y taliadau iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig yn dod o gronfeydd canolog Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 3. Ar sail yr wybodaeth sydd gennym, rydym yn argymell na ddylai'r Senedd roi cydsyniad i gymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 (yn ymwneud â'r Cod Dioddefwyr), cymal 15 (yn ymwneud â chanllawiau ynghylch cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a chyngorwyr annibynnol ar drais rhywiol); a chymal 24 i 27 a 29 i 31 (yn ymwneud â dioddefwyr digwyddiadau mawr).**

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn gan y Pwyllgor ar y cymalau uchod.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Culture and Social Justice

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/171/2024
Ein cyf/Our ref CG/PO/171/2024

Mike Hedges, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 ain Mehefin 2024

Annwyl Mike,

**Cywiriadau i offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 4 Mehefin.

Rydych wedi gofyn am eglurhad pellach ar y meini prawf a gymhwysir gan y Llywodraeth wrth ystyried a ellid cywiro neu y dylid eu gwneud ar wneud yr offeryn cadarnhaol drafft.

Trwy gyd-destun mae ein man cychwyn bob amser wedi cael ei arwain gan daro'r cydbwysedd cywir rhwng dwy egwyddor sy'n cystadlu.

Y cyntaf yw osgoi cymryd agwedd anghymesur tuag at cywiro camgymeriadau. Mae hwn yn fater a ddarlunnir gan *Craies on Legislation* o dan deitl "sleeping dogs" lle dywedir ei fod yn:

> *Yn achos mân wall lle mae'r hyn a fwriedir yn glir y tu hwnt i amheuaeth ac nid oes lle i gamddealltwriaeth nac am ddryswch difrifol, mae'n well caniatáu i gŵn cysgu orwedd. Mae deddfwriaeth gywiro yn golygu gwariant mawr o arian cyhoeddus, ac mae hyd yn oed y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â mater clip cywiro yn sylweddol. Felly, mae yna nifer o achosion lle mae camgymeriadau dibwys wedi cael caniatâd i aros.*
> *In the case of a minor error where what is intended is clear beyond doubt and there is no room for misunderstanding or for serious confusion, it is best simply to allow sleeping dogs to lie. Corrective legislation involves large expenditure of public money, and even the administrative costs associated with the issue of a correction clip are considerable. There are therefore a number of instances in which trivial errors have simply been allowed to remain.*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hyn wedi'i osod yn erbyn yr ail egwyddor (sylfaenol ac amlwg) y dylid osgoi gwneud deddfwriaeth anghywir lle bo hynny'n ymarferol. Rhoddir rhywfaint o pharch i'r gyfraith ysgrifenedig ym meddyliau'r mwyafrif o ddefnyddwyr, a rhagdybiaeth naturiol na fydd gwall yn y ddeddfwriaeth. O ganlyniad, nid yw gwallau mor amlwg i ddefnyddwyr deddfwriaeth ag y gallant fod i wneuthurwyr y ddeddfwriaeth.

Felly lle gallwn gywiro gwall a gwneud hynny heb anhawster sylweddol, dyma ein dewis bob amser. Fodd bynnag, dim ond pan fo'r camgymeriad dan sylw yn fân iawn yr ydym yn gwneud hyn ac, i fod yn glir, hyn yw yn ein 'prawf' yn hytrach nag a yw'n 'sylweddol' fel y mae'n ymddangos bod eich llythyr yn awgrymu.
Rwy'n credu bod y gwahaniaeth hwn yn bwysig iawn gan ei fod yn dangos y safbwynt yr ydym yn dechrau ohono.

Trwy fy ymgysylltiad â'r Pwyllgor dros y 18 mis diwethaf ar fater o gywiro offerynnau statudol, credaf ein bod wedi datblygu gwerthfawrogiad manylach o fewn y Llywodraeth o'r meini prawf sy'n sail i slipiau cywiro, a sut y gellir gwneud cywiriadau cyfatebol i'r offerynnau hynny na all slip cywiro fod yn berthnasol iddynt am nad yw wedi'i wneud eto.

Yn y bôn, mae'r prawf a ddefnyddiwn yr un fath â'r un a gymhwysir gan y Cofrestrydd OS, sef i ystyried a yw'r gwall yn fân iawn ac a yw ei rwymedi yn glir ac yn amlwg. (Rwy'n petruso mabwysiadu'r geiriau "ar raddfa fach" yma, fel y mae Cyd-bwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol wedi'i wneud gan nad wyf am ddrysu maint a nifer y cywiriadau â'u heffaith.)

Dylwn fod yn glir, fodd bynnag, fel bron pob prawf, fod llawer yn dibynnu ar gyd-destun ac mae elfen o goddrychedd. Mae hyn yn anochel.

Yn y sefyllfa yr ydym yn ystyried a ellir cywiro ynddi cyn gwneud offeryn, mae gennym y budd, yn wahanol i Gofrestrydd OS, o fod yn ymwybodol yn gyntaf o'r cyd-destun llawn y mae'r offeryn yn cael ei wneud ynddo ac y bydd yn gweithredu, ac yn ail o wybod bod y penderfyniad yn ddarostyngedig i’r cyfyngiadau o gadw gydbwysedd sy'n codi o: (a) bod yn dryloyw ynghylch yr hyn a wnaed cyn i'r Offeryn gael ei gymeradwyo, a (b) bod y Senedd yn gallu gwrthod cymeradwyo'r Offeryn.

I'r gwrthwyneb, mae'r Cofrestrydd Cydsyniad Statudol yn unigolyn sydd â'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i gwneud o'i flaen, a dim gallu i brofi'r cywiriad gyda'r Gweinidog a fydd yn gwneud y ddeddfwriaeth os caiff ei chymeradwyo, ac yn wir gymeradwyaeth y ddeddfwrfa i'r offeryn gyda'r wybodaeth am y cywiriad arfaethedig o'u blaenau.

Dyna pam y gallwn, o bryd i'w gilydd, gywiro materion nad yw'r Cofrestrydd OS yn barod i'w cywiro.

Y broses arferol ar gyfer cywiriadau a wneir gan y Llywodraeth yw bod y camgymeriad yn cael ei ystyried gan y cyfreithwyr/cyfreithwyr drafftio, a drafodir gyda swyddogion polisi ac weithiau hefyd y Swyddfa Codau Deddfwriaethol (sy'n rheoli ceisiadau am slipiau cywiro i'r Cofrestrydd OS). Mae cyngor yn cael ei baratoi a'i glirio drwy amrywiaeth o swyddogion cyn cael ei roi i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am yr offeryn, ac os yw'r Gweinidog yn fodlon, rhoddir y cywiriad arfaethedig gerbron y Senedd.

Sylwer hefyd y gall fod achosion sy'n gytbwys iawn, a phan fyddwn yn wynebu mân fater ond hefyd materion eraill y mae'n amlwg bod angen ymdrin â nhw drwy offeryn diwygio dilynol, yna mae'n debygol y byddai'n well gennym ddelio â’r *holl* faterion hynny yn yr offeryn diwygio hwnnw

I grynhoi:

- rydym yn cael ein harwain gan gymesuredd wrth gymryd unrhyw gamau ac awydd i osgoi gwneud deddfwriaeth anghywir, oherwydd y risg na fydd y defnyddiwr terfynol yn deall bod gwall yn bodoli;
- rydym yn mabwysiadu prawf cyfatebol i'r Cofrestrydd OS i benderfynu a yw mater yn fân iawn, ond (yn anochel) os yw cywiriad mân iawn fod yn agored i'w ddehongli;
- os ydym yn credu ei fod yn unrhyw beth heblaw mân iawn, ni ellir cymryd camau pellach a bydd angen dod o hyd i ateb arall (er enghraifft, tynnu'n ôl ac ail-osod yr offeryn);
- os credwn ei fod yn fater mân iawn, rhaid i'r Gweinidog gytuno y gellir cywiro os caiff yr offeryn ei gymeradwyo gan y Senedd yn y pen draw a rhaid nodi'r cywiriad arfaethedig i'r Pwyllgor ac i'r Aelodau;
- mae yna ddiogelwch pellach y gall y Senedd ond wneud yr offeryn os caiff ei gymeradwyo (gan wybod y cywiriad arfaethedig).

Rydych hefyd wedi ceisio deall sylwadau (ar y pryd) y Gweinidog Newid Hinsawdd ymhellach yn ystod y ddadl ar Reoliadau Gwastraff Pecynnu (Casglu ac Adrodd Data) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwy'n siŵr y byddwch yn deall na allaf siarad ar ran y Gweinidog ond eisteddais wrth ei hymyl yn y Siambr yn ystod y ddadl honno ac nid oeddwn yn deall ei sylwadau i nodi (fel y gwnaethoch chi yn eich llythyr) *"na fydd unrhyw gywiriad yn sylweddol cyn belled nad yw'n newid bwriad polisi'r offeryn."*

I fod yn glir, barn y Llywodraeth yw nad yw cywiriad sy'n newid offeryn yn sylweddol mewn unrhyw ffordd (heb sôn am newid bwriad polisi sylfaenol yr offeryn hwnnw), yn un y gellir delio ag ef wrth ei wneud. Ni fyddem yn cynnig delio â chywiriad o'r fath yn y ffordd honno.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru@SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol

4 Mehefin 2024

Annwyl Mick

Cywiriadau i offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft

Fel Pwyllgor, rydym yn croesawu eich ymgysylltiad cadarnhaol parhaus â ni wrth i ymdrechion gael eu gwneud ar bob ochr i wella ansawdd is-ddeddfwriaeth a wnaed yng Nghymru ac i wella tryloywder a hygyrchedd y broses ddeddfu.

Yn ein cyfarfod ar 13 Mai 2024 gwnaethom ystyried eich llythyr dyddiedig 3 Mai 2024 sy'n ymateb i rai materion pellach y gwnaethom ysgrifennu atoch amdanynt ar 23 Ebrill 2024 ynghylch Gweinidogion Cymru yn gwneud cywiriadau i offerynnau statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft cyn eu gwneud.

Yn gyntaf, rydym yn croesawu eich datganiad na fyddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud newidiadau sylweddol fel rhan o'r broses gywiro offerynnau cyn eu gwneud.

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd gennych yn eich llythyr dyddiedig 3 Mai 2024, a'r sylw yr ydych wedi'i dynnu at ddatganiadau yr ydych wedi'u gwneud mewn gohebiaeth flaenorol i'r Pwyllgor (yn benodol ar 18 Ionawr 2023). Rydym yn cydnabod, yn yr ohebiaeth gynharach honno o 2023, eich bod wedi awgrymu y gallai gwahanol bethau gyfrannu pan fydd Gweinidog Cymru yn ystyried cywiro offeryn drafft cyn ei wneud, gan gynnwys yr ystyrir bod y cywiriad o'r math y gellid ymdrin ag ef drwy slip cywiro neu ei fod yn gywiriad y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i'w unioni cyn gwneud yr offeryn statudol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Fodd bynnag, fel yr ydych yn tynnu sylw ato yn eich llythyr diweddar, gwnaethoch hefyd ddweud wrth y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023 y gallai cywiriadau i offerynnau cyn eu gwneud hefyd gynnwys rhai na fyddai'n addas ar gyfer slip cywiro.

Felly, gobeithiwn y byddwch yn gwerthfawrogi ein barn bod angen mwy o eglurder o hyd ar y meini prawf penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymhwyso wrth benderfynu nad yw cywiriad penodol yn sylweddol ac felly'n briodol i'w wneud cyn gwneud offeryn statudol. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r meini prawf hynny i ni a/neu egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn asesu a yw cywiriad arfaethedig yn gyfystyr â newid "sylweddol" ai peidio.

Byddai rhannu'r wybodaeth hon o gymorth mawr i ni wrth ystyried ymatebion Llywodraeth Cymru i'n hadroddiadau ar Offerynnau Statudol, yn bennaf oherwydd byddai cael y meini prawf yn golygu y byddem ond yn debygol o ofyn am fewnbwn pellach gan y Gweinidog perthnasol yng Nghymru pe bai'n ymddangos nad yw'r cywiriad yng nghwmpas y meini prawf hynny. Credwn y byddai hefyd yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd pellach mewn perthynas â'r broses cywiro offerynnau cyn eu gwneud, ochr yn ochr ag ymrwymiad blaenorol Llywodraeth Cymru i hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw gywiriadau o'r fath.

Yn fy llythyr a anfonwyd atoch ar 23 Ebrill 2024, tynnodd fy rhagflaenydd sylw at bryderon y Pwyllgor ynghylch sylwadau a wnaed gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd yn ystod y ddadl ar Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024 (y Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith). Gwnaethom ddweud nad yw'n glir i ni pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn, fel yr awgrymwyd gan y Gweinidog, y byddai newid "technegol" yn awtomatig yn fân newid, yn enwedig pan fo newidiadau sy'n cael eu gweld yn rhai "technegol" (megis ychwanegu coma) yn gallu newid ystyr testun. Roeddem hefyd yn pryderu am y goblygiadau o fewn sylwadau'r Gweinidog na fydd *unrhyw* gywiriad yn sylweddol cyn belled nad yw'n newid bwriad polisi'r offeryn.

Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith bellach wedi newid, ac mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi cael gwybod am yr ohebiaeth a gyfnewidiwyd. Er hynny byddem yn croesawu eich safbwyntiau, o ystyried eich cyfrifoldebau yn goruchwylio gwaith yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, ynghylch a yw sylwadau'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru ar gywiro offerynnau cyn eu gwneud, ac os felly, ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hyn yn briodol ac yn intra vires.

Rwy'n pwysleisio eto'r hyn a ddywedwyd mewn gohebiaeth flaenorol, sef bod y Pwyllgor yn ymgymryd yn ddiffuant â'r gwaith o graffu ar offerynnau statudol er mwyn ceisio bod yn bartner beirniadol adeiladol yn y broses ddeddfu.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Yn gywir

Mike Hedges
Cadeirydd

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

27 Mehefin 2024

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Rydych wedi gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymrwymiadau a wnaed gan fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths AS, y cyn-Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn cysylltiad â 'Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022' ("y Rheoliadau").

Ymrwymodd y cyn-Weinidog i gyflwyno Offeryn Statudol (OS) i gywiro'r ddau bwynt adrodd heb eu datrys nad oedd modd mynd i'r afael â nhw cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud. Roedd eich llythyr yn cyfeirio at bwyntiau adrodd 8, 25 a 30.

Roedd pwynt 8 yn nodi gwall yn y cyfwerthedd rhwng y fersiynau Saesneg a Chymraeg o reoliad 4(2)(a)(viii) o'r Rheoliadau. Gallaf gadarnhau i'r diwygiad i sicrhau bod y ddwy fersiwn o'r Rheoliadau'n cyd-fynd gael ei wneud pan gawsant eu cyhoeddi, yn hytrach na thrwy gyfrwng OS diwygiedig, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am hynny yn ymateb y Llywodraeth ar 13 Rhagfyr 2022.

O ran pwynt adrodd 25 (hepgor cyfeiriad at Erthygl 5(5)(a) yn yr Atodlen i'r Rheoliadau), mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu OS diwygiedig, a byddaf yn mynd ati maes o law i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd am hynt yr OS hwnnw.

O ran pwynt adrodd 30, gwnaeth y cyn-Weinidog ymrwymiad, gan gymryd y byddai modd nodi pŵer addas, i ddiwygio'r weithdrefn graffu sy'n gymwys i un o'r pwerau dirprwyedig yn y Rheoliadau, gan newid o'r weithdrefn negyddol i'r weithdrefn gadarnhaol. Hyd yma, nid yw fy swyddogion wedi llwyddo i nodi pwerau addas i alluogi i'r newid y gofynnwyd amdano gael ei wneud, ond byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn cyflwyno OS diwygio.

Er y byddai wedi bod yn well mynd i'r afael â'r ddau bwynt adrodd mewn un OS, er mwyn atal rhagor o oedi byddaf yn parhau i ddatblygu OS diwygio er mwyn datrys pwynt adrodd 25. Pan nodir pŵer addas a fydd yn caniatáu i waith fynd rhagddo ar bwynt adrodd 30, bydd OS ar wahân yn cael ei wneud bryd hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ateb eich cwestiynau. Byddaf yn cysylltu â chi eto unwaith y byddaf mewn sefyllfa i roi rhagor o wybodaeth ichi.

Yr eiddoch yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

5 Mehefin 2024

Annwyl Huw

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ystyried yn ofalus dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (y Rheoliadau), yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr 2022, i ofyn i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau, er gwaethaf nifer o wallau yn y Rheoliadau. Byddwch yn gwybod bod y dull o ymdrin a fabwysiadwyd gan Llywodraeth Cymru, yn rhannol, o ganlyniad i'r ffaith bod pwerau yn *Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*, ar fin dod i ben.

Mewn gohebiaeth yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno offeryn statudol pwrpasol i gywiro'r gwallau.

Nid ydym yn sicr a gafodd offeryn diwygio ei wneud erioed. Rydym yn cydnabod, tua 18 mis ar ôl i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau, y gallai fod yn wir bod yr angen am offeryn o'r fath wedi cael ei ddisodli gan newidiadau eraill i'r drefn fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno offeryn statudol pwrpasol i gywiro'r gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, neu gadarnhad o pryd a sut y cafodd yr angen am offeryn cywiro ei ddisodli.

Yn yr ohebiaeth y cyfeirir ati uchod, ymrwymodd y Gweinidog ar y pryd hefyd i ddiweddaru'r Pwyllgor trwy lythyr ynghylch y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran nodi pŵer i alluogi'r Gweinidog i gyflawni ei hymrwymiad, a wnaed yn ystod y ddadl ar y Rheoliadau, i ddiwygio'r weithdrefn graffu

sy'n berthnasol i un o'r pwerau dirprwyedig yn y Rheoliadau o'r weithdrefn negyddol i'r weithdrefn gadarnhaol. Nid yw'n ymddangos ein bod wedi cael diweddariad o'r fath, a byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sefyllfa bresennol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 24 Mehefin 2024.

Yn gywir

Mike Hedges
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Busnes

Y Pwyllgor Busnes

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Mike Hedges AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Mehefin 2024

**Y broses cydsyniad deddfwriaethol**

Annwyl Mike,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 5 Mehefin yn amlinellu pryderon ac argymhellion pellach eich Pwyllgor ynghylch Rheol Sefydlog 29 a'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Buom yn trafod y llythyr yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin a chydnabod y gwaith sylweddol y mae eich Pwyllgor wedi'i wneud yn y maes hwn yn ystod y Senedd bresennol.

Rwyf eisoes wedi cadarnhau bod gwaith presennol y Pwyllgor Busnes ar gydsyniad deddfwriaethol yn cynnwys ystyriaeth benodol o Reol Sefydlog 29.1 a'r profion sy'n cael eu cymhwyso ar hyn o bryd gan y Senedd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth benderfynu a oes angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

Cytunwyd i barhau â'n gwaith presennol ar Reol Sefydlog 29.1 o ystyried y cyfle y mae'n ei gyflwyno i gysoni'r ddealltwriaeth ynghylch a oes angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau Bil, ac i wneud hynny mewn amserlen fyrrach nag y byddai adolygiad gweithdrefnol llawn o'r broses yn ei ganiatáu. Ein bwriad o hyd yw ystyried y mater hwn cyn toriad yr haf.

Rydym yn ddiolchgar i chi am dynnu ein sylw at adroddiadau diweddar eich Pwyllgor ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI). Rydym yn cydnabod bod y materion a godir yn eich argymhellion yn tynnu sylw at y posibilrwydd y bydd angen adolygiad llawn o'r broses cydsyniad deddfwriaethol a Rheol Sefydlog 29.

O ystyried arbenigedd eich Pwyllgor a'ch cyfranogiad manwl yn y maes hwn, yn ogystal â'r angen i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid y tu mewn i'r Senedd a'r tu allan



Senedd Cymru
Welsh Parliament

iddi, rydym o'r farn y byddech mewn sefyllfa dda i arwain unrhyw ystyriaeth fanwl o'r ffordd y mae'r broses cydsyniad deddfwriaethol a Rheol Sefydlog 29 yn gweithredu ar hyn o bryd. Yna, rôl y Pwyllgor Busnes fyddai ystyried unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a allai gael eu cynnig o ganlyniad i'r gwaith hwnnw, a bwrw ymlaen â’r newidiadau hynny.  Cytunwyd y dylwn ymateb i ofyn i chi ystyried a fyddai gan eich Pwyllgor y modd i ymgymryd â'r gwaith hwnnw.

Diolch unwaith eto am eich dyfalbarhad a'ch cydweithrediad wrth ystyried y materion pwysig hyn.

Cofion cynnes

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

5 Mehefin 2024

Annwyl Lywydd,

## Ein hadroddiadau diweddar ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a sylwadau ar y broses cydsyniad deddfwriaethol

Bydd y Pwyllgor Busnes yn ymwybodol bod fy Mhwyllgor yn ystyried yr holl femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 29, a hyd yn hyn, mae wedi gosod bron 75 o adroddiadau ar femoranda o'r fath.

Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn ymwybodol bod fy Mhwyllgor wedi ysgrifennu ar sawl achlysur yn y Chweched Senedd i dynnu sylw at yr argymhellion yr ydym wedi'u gwneud yn ein hadroddiadau ynghylch Rheol Sefydlog 29 a'r broses cydsyniad deddfwriaethol, neu i godi pryderon penodol yn eu cylch. Gwnaethom groesawu eich llythyr, dyddiedig 20 Mawrth 2024, a anfonwyd atom pan wnaethoch gadarnhau y bydd Rheol Sefydlog 29.1 yn cael ei hystyried fel rhan o waith arfaethedig y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

Yn fwyaf diweddar, ar 10 Mai 2024, gwnaethom ysgrifennu atoch mewn perthynas â'n hystyriaeth o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Cyfiawnder Troseddol, lle nodwyd gennym eto, wrth benderfynu a yw darpariaethau Bil yn gofyn am gydsyniad y Senedd, bod gwahanol brofion yn cael eu cymhwyso ar hyn o bryd o fewn y Senedd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y drefn honno. Unwaith eto, rydym yn diolch i chi am eich llythyr yn ymateb ar 15 Mai, lle gwnaethoch gadarnhau bod y Pwyllgor Busnes yn disgwyl ystyried ei waith ymhellach ar y broses cydsyniad deddfwriaethol, gan gynnwys y materion a godwyd gennym, cyn toriad yr haf.

Pan ysgrifennodd fy rhagflaenydd ar 10 Mai 2024, pwysleisiodd y byddai'r Pwyllgor yn debygol o ysgrifennu eto am Reol Sefydlog 29 yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio). Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar 10 Mai 2024, a hoffwn dynnu eich sylw at dri o argymhellion y Pwyllgor:

> *Argymhelliad 1. Wrth osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol gynnwys amserlen o'r trafodaethau a'r gwaith ymgysylltu rhynglywodraethol perthnasol sydd wedi digwydd ar lefel swyddogol a gweinidogol.*
>
> *Argymhelliad 6. Wrth osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol esbonio'n fanwl yn y memorandwm hwnnw pam y dewiswyd peidio â dilyn proses graffu ddeddfwriaethol garlam ar gyfer Bil a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na defnyddio Bil Llywodraeth y DU i wneud darpariaeth mewn maes datganoledig.*
>
> *Argymhelliad 8. Os bwriedir defnyddio Bil y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig, rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Rheol Sefydlog 29, ac yn unol â'r Rheol Sefydlog honno rhaid iddi osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno.*

Mae'r Pwyllgor hefyd bellach wedi adrodd ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol. Mae dau fater difrifol yn yr adroddiad hwnnw yr ydym hefyd yn teimlo bod angen tynnu eich sylw atynt.

Yn gyntaf, o ystyried y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 13 Mai 2024, cyn y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol a drefnwyd ar gyfer 14 Mai 2024, roedd yn anfoddhaol iawn mai dim ond ar 13 Mai y derbyniodd y Pwyllgor gopïau oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg o ohebiaeth rynglywodraethol pwysig yn ymwneud â'r Bil. Dim ond ychydig iawn o amser oedd gan y Pwyllgor i adolygu'r ohebiaeth. Un mater o gryn bwys i'r Senedd a oedd yn haeddu ystyriaeth fanwl oedd cadarnhad am y tro cyntaf, mewn llythyr dyddiedig 1 Mawrth 2024 a amgaewyd o fewn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ar 13 Mai 2024, mai bwriad Llywodraeth y DU oedd y bydd y Bil yn galluogi defnydd gwell o ddata ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn gallu dysgu mwy am Nodyn Cyfarwyddyd ar Ddatganoli Llywodraeth y DU y mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio ato sawl gwaith mewn amrywiol femoranda cydsyniad deddfwriaethol yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, a dyma destun yr ail fater yr ydym yn dymuno ei godi. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth y Pwyllgor, er enghraifft mewn gohebiaeth ddiweddar mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, bod Gweinidog Gwladol perthnasol Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn nodi bod ei Nodyn

Cyfarwyddyd ar Ddatganoli yn nodi y dylid ceisio cydsyniad gan y Senedd wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, nid yn unig mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, i gyfiawnhau sbarduno proses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, bellach ar ôl gweld y llythyr penodol gan y Gweinidog Gwladol, (gweler y llythyr dyddiedig 6 Chwefror 2024 wedi'i amgáu yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dyddiedig 13 Mai 2024), mae'n ymddangos bod safbwynt Llywodraeth y DU yn fwy cynnil ac mewn gwirionedd yn cydnabod nad yw Rheolau Sefydlog y Senedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd lle mae Bil Senedd y DU yn gosod swyddogaethau o'r fath. Yn y llythyr mae'r Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol yn nodi:

> *"The UK Government maintains that these functions are reserved, but in further consideration of the Welsh Devolution Guidance Note, which sets out that consent should also be sought when conferring or imposing reserved functions on a devolved Welsh authority, we have come to the view that it is appropriate to seek agreement to Clause 74 and Clause 78(3) -* ***either through a Legislative Consent Motion or a statement made by the Welsh Ministers - noting that there is no procedure in the Senedd Standing Orders covering situations where a UK Parliament bill imposes reserved functions on devolved Welsh authorities****."*
> *(ychwanegwyd pwyslais)*

Fel y dywedodd fy rhagflaenydd mewn llythyr ar 10 Mai 2024, fel Pwyllgor rydym yn pryderu y bydd y dull sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru yn arwain at ddryswch o ran yr hyn sy'n sail i'r cais am gydsyniad y Senedd.

Hoffwn ailadrodd ein bod yn cydnabod ac yn croesawu'n fawr y ffaith bod gwaith wedi dechrau ar adolygu'r Rheol Sefydlog.

Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor bryderon cryf erbyn hyn bod y datblygiadau diweddaraf hyn yn amlygu angen posibl i'r Pwyllgor Busnes gynnal adolygiad gweithdrefnol llawn o Reol Sefydlog 29 i sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Rydym wedi dod i'r farn hon oherwydd ein bod yn credu bod cydsyniad yn cael ei geisio ar gyfer darpariaethau mewn meysydd datganoledig ar raddfa na ragwelwyd o bosibl pan ddrafftiwyd y rheol sefydlog yn wreiddiol. Yn ein barn ni, mewn amgylchiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cynnwys darpariaeth ddatganoledig sylweddol mewn Bil y DU, dylai fod yn ofynnol i femoranda cydsyniad deddfwriaethol perthnasol ddarparu gwybodaeth fanylach er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith craffu mwy gwybodus ac amserol. Wrth gwrs, mater allweddol y byddai angen ei gydnabod o hyd yw na all y broses o ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol, hyd yn oed gyda gwybodaeth fanylach, efelychu'r lefel o graffu a fyddai ar gael ar gyfer darpariaethau a gynhwyswyd mewn Biliau a gyflwynwyd i'r Senedd).

Yn gywir

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEEW/5564/24

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Mehefin 2024

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), a osodwyd ar 13 Mai mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ('y Bil').

Fel y gwyddoch, cynhaliwyd y ddadl lawn ar gyfer y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil ar 14 Mai. Yn ystod y ddadl, argymhellais i'r Senedd wrthod ei chaniatâd ar gyfer y Bil ac ni chytunwyd ar y cynnig.

Byddwch hefyd yn ymwybodol fod y Bil wedi methu yn dilyn diddymu Senedd y DU ar 30 Mai.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ystyried Memorandwm Rhif 4 yn ofalus. Rwyf wedi ystyried y casgliadau a nodir yn yr adroddiad ac wedi ymateb i bob un o'r argymhellion isod.

**Cydsyniad Deddfwriaethol**
Nodaf fod y Pwyllgor yn cytuno bod y diwygiadau i'r cymalau (a'r Atodlen) a nodir ym Memorandwm Rhif 4 yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

O ran cymalau 74 a 78, nodaf hefyd fod y Pwyllgor yn cytuno y dylid ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3), gan adlewyrchu barn Llywodraeth y DU y dylid ceisio cydsyniad deddfwriaethol wrth roi neu osod swyddogaethau a gadwyd yn ôl ar awdurdod datganoledig Cymru.

**Pryderon cyfansoddiadol**
Rwy'n croesawu cefnogaeth y Pwyllgor mewn perthynas â'r pryderon cyfansoddiadol a gododd Llywodraeth Cymru am y Bil. Rwy'n cytuno â chasgliad y Pwyllgor, pe na fyddai'r Bil wedi methu, ac wedi cael ei basio gan Senedd y DU heb gydsyniad Senedd Cymru, byddai hyn wedi codi amheuaeth am weithrediad Confensiwn Sewel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhellion**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1**<br>Pe byddai'r Bil yn cael ei ddeddfu ar ei ffurf bresennol, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau ai bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ailddirprwyo'r pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru o dan adran 79 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â Gweinidog priodol y DU yn unol â pharagraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).<br><br>**Ymateb:**<br>Methodd y Bil yn dilyn diddymu Senedd y DU. |
| **Argymhelliad 2**<br>Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet, yn ystod y ddadl ar y cydsyniad perthnasol ar gyfer y Bil, ddarparu manylion llawn i egluro ei ddatganiad bod nifer o ddarpariaethau'r Bil effeithio ar statws Digonolrwydd Data'r UE y DU a'r potensial i arwain at her gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.<br><br>**Ymateb:**<br>Nodaf yn yr adroddiad fod pryderon ynghylch y posibilrwydd o herio cyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas ag effaith y Bil ar statws Digonolrwydd Data'r DU yn yr UE, yn amlwg ac yn peri pryder.<br><br>Yn ystod y ddadl Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, eglurais y darpariaethau yn y Bil yr ydym yn ystyried bod ganddynt botensial o adolygiad gan y Comisiwn Ewropeaidd, neu her gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys y darpariaethau hynny y gwelwyd eu bod yn gwanhau annibyniaeth y Comisiynydd Gwybodaeth ac yn tanseilio hawliau unigol.<br><br>Es ymlaen i egluro, wrth i'r Bil ddiwygio'r diffiniad statudol o ddata personol, fod perygl y gellid bod wedi cynnwys ystod ehangach o ddata iechyd a gofal cymdeithasol yng nghwmpas cytundebau masnach rydd.<br><br>Er fod y Bil wedi methu, mae pwysigrwydd cadw digonolrwydd data'r UE yn parhau a bydd fy swyddogion yn monitro'r mater wrth symud ymlaen. |
| **Argymhelliad 3**<br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'n glir yn ystod y ddadl gydsynio berthnasol ar gyfer y Bil a yw Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhwymedigaethau'r DU-UE a nodwyd eisoes, o'r farn bod gan y Bil oblygiadau ar gyfer trefniadau rhyngwladol eraill megis y bont ddata rhwng y DU a'r Unol Daleithiau a sefydlwyd yn 2023. Os felly, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu gwybodaeth fanwl.<br><br>**Ymateb:**<br>Yn ystod y cynnig i'w drafod, nodais fy mhryderon fod y Bil yn nodi dechrau ymwahanu'r DU oddi wrth y drefn diogelu data sydd ar waith ar hyn o bryd ledled yr UE. Hefyd, bod gan y dull hwn y potensial i danseilio'r darpariaethau diogelu data yn y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad ar draws ystod eang o feysydd polisi a gallai arwain at golli digonolrwydd data'r UE o bosibl. |

Byddaf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon